| Transcript – Using the ambassador Toolkit | Defnyddio'r Pecyn Cymorth i Lysgenhadon |
|---|---|
| This is the Gwent Levels Sense of Place Toolkit and I'm going to take you through the different ways you can use the kit and its structure.<br><br>First of all, if we open the front cover, we see a content page which shows the Toolkit is split into seven different themes. There's a theme about History, one about the fact it's a Handcrafted Landscape, one about Water, one about Wildlife, and so on. We've tried to make these very self-explanatory; the Historic Landscape is, of course, about the history of the landscape, and Wildlife is all about the different plants and animals that you can find on the Gwent Levels. This really enables you to dip in and out; if you're interested in the culture, then you can skip straight to the Cultural theme. And, you can see my cursor here, if you're looking at the electronic version, you can simply hover over your theme, click on it and it will take you directly to that page.<br><br>We move on to the Introduction, which gives you a broad overview of the Gwent Levels, its history, the landscape and its use and a little bit about the wildlife and nature. There's a 'How to Use' section which explains how to use the Toolkit, so, as I said, it's possible to dip in and out.<br><br>Within each of the seven themes there are different sections, and one section is called Discover which has information about that particular theme, such as where you could go and what you could do on the Levels. There's also information about Hidden Gems and Clues | Dyma Becyn Cymorth Ymdeimlad o Le Gwastadeddau Gwent ac rydw i am eich tywys trwy'r gwahanol ffyrdd y gallwch chi ddefnyddio'r pecyn hwn a'i strwythur.<br><br>Yn gyntaf oll, os agorwn y clawr blaen, gwelwn dudalen gynnwys sy'n dangos bod y Pecyn Cymorth wedi'i rannu'n saith thema wahanol. Ceir thema Hanesyddol, thema am y ffaith bod y Tirlun wedi ei lunio â llaw, un arall am Ddŵr, un am Fywyd Gwyllt, ac ati. Rydyn ni wedi ceisio gwneud y themâu yn ddealladwy; mae'r Tirlun Hanesyddol, wrth gwrs, yn ymwneud â hanes y tirlun, ac mae Bywyd Gwyllt yn ymwneud â'r gwahanol blanhigion ac anifeiliaid y gallwch chi eu gweld ar Wastadeddau Gwent. Mae hyn yn eich galluogi i fynd a dod ato yn eich amser eich hun; os oes gennych ddiddordeb yn y diwylliant, yna gallwch fynd yn syth at y thema Ddiwylliannol. Ac, gallwch weld fy nghyrchwr yma, os ydych chi'n edrych ar y fersiwn electronig, mae posib hofran dros thema, clicio arni a bydd yn eich arwain yn uniongyrchol i'r dudalen honno.<br><br>Symudwn ymlaen at y Cyflwyniad, sy'n rhoi arolwg eang i chi o Wastadeddau Gwent, ei hanes, y tirlun a'i ddefnydd ac ychydig am fywyd gwyllt a natur. Mae yna adran 'Sut i Ddefnyddio' sy'n esbonio sut i ddefnyddio'r Pecyn Cymorth, felly, fel y dywedais, mae'n bosib mynd a dod ato.<br><br>O fewn pob un o'r saith thema mae yna wahanol adrannau, a gelwir un adran yn Darganfod sy'n cynnwys gwybodaeth am y thema benodol honno, tebyg i leoedd i ymweld â nhw a phethau i'w gwneud ar y Gwastadeddau. Mae yna hefyd wybodaeth am Drysorau Cudd a Chliwiau yn y Tirlun lle rydyn ni wedi ceisio cynnwys pethau na fyddech chi efallai'n |

| | |
|---|---|
| in the Landscape where we have tried to include things that you might not otherwise find on the internet, so its things that you could look for underneath the surface of the landscape and things that you might not otherwise know about. There’s some information about what you could do at different times, in different areas and different seasons. There’s also a case study; something about that particular theme that has happened in real life, maybe an inspirational story that somebody could tell as a way to develop different ideas. There’s also a section about the Levels Lingo which is this unique language that exists on the Levels and the meaning behind those words. There are lots of different links as well to different areas in the Toolkit. This is just encouraging you to use it in a different way; it can be used with residents or with businesses, or indeed for lots of different organisations.<br><br>Following on from that section, we now look at the highlights. This is a lovely visual section with lots of different places that you can visit, different things that existed and links to different things. There is a beautiful video here of “Time and Tide” which is an animation and a poem that takes you through the different times on the Gwent Levels and what has happened in that time. Again, lots more information and highlights of the area.<br><br>Here's the all-important map so that we know where how far the Gwent Levels stretches, and of course, it's a long, huge coastal area.<br><br>Here we move on to one of the different themes and this one is about History. It starts with a brief history | darganfod ar-lein, tebyg i bethau y gallwch chi edrych amdanyn nhw o dan wyneb y tirlun a phethau na fyddech chi fel arall yn ymwybodol ohonyn nhw. Ceir rhywfaint o wybodaeth am yr hyn y gallwch chi ei wneud ar wahanol adegau, mewn gwahanol ardaloedd a gwahanol dymhorau. Mae yna astudiaethau achos hefyd; rhywbeth am y thema benodol honno sydd wedi digwydd mewn bywyd go iawn, stori ysbrydoledig efallai y gallai rhywun ei hadrodd fel ffordd i ddatblygu amrywiaeth o syniadau. Mae yna hefyd adran am y ‘Levels Lingo’ sef yr iaith unigryw sy'n bodoli ar y Gwastadeddau a'r ystyr y tu ôl i'r geiriau hynny. Mae yna lawer o wahanol ddolenni yn ogystal â gwahanol adrannau yn y Pecyn. Y bwriad yw eich annog i'w ddefnyddio mewn ffordd wahanol; gellir ei ddefnyddio gyda thrigolion neu gyda busnesau, neu ar gyfer llawer o wahanol sefydliadau.<br><br>Yn dilyn yr adran yma, edrychwn yn awr ar yr uchafbwyntiau. Dyma adran weledol hyfryd gyda llawer o wahanol leoliadau y gallwch ymweld â nhw, pethau a arferai fodoli a dolenni i wahanol eitemau. Ceir fideo hyfryd yma o “Amser a Llanw” sef animeiddiad a cherdd sy'n eich tywys trwy wahanol gyfnodau ar Wastadeddau Gwent a'r hyn a ddigwyddodd yn yr amser hwnnw. Unwaith eto, llawer mwy o wybodaeth ac uchafbwyntiau'r ardal.<br><br>Dyma'r map holl bwysig yn dangos ehangder y Gwastadeddau, ac wrth gwrs, ei ardal arfordirol hir, enfawr.<br><br>Rydyn ni’n symud ymlaen i un o'r themâu ac mae'r un yma yn ymwneud â Hanes. Mae'n dechrau gyda hanes cryno ac yna awn ymlaen i'r adrannau sy’n darganfod cliwiau yn y tirlun ac amrywiaeth o straeon. Mae'n parhau gyda'r adrannau eraill sy'n cynnwys lluniau a gwahanol bethau y gallwch eu gweld. |

| | |
|---|---|
| and then we go into our sections of discovering clues in the landscape and the different stories. It continues with the other sections which include illustrations and different things that you can see.<br><br>It’s the same for each theme. You could go through the Handcrafted Landscape and Water, the Wildlife, the Conservation, and then the different places to enjoy and the culture.<br><br>At the end of the Toolkit there's a Directory that lists useful things, places to go and things to do. And again, we've tried to focus on things that you might not otherwise know about, so we've categorized different places that that are dog free, or dog friendly. There is, of course, the museums and we've also included the variety of sculptures that have been recently put up in different places of interest. Also walking routes, the loops and links walks that have been developed and there are leaflets available about each one of those. There's also a calendar telling you what you can do at different times of the year.<br><br>Hopefully that's given you a very quick guide around this Toolkit and some ideas of the ways that you can use it. | Mae pob thema yr un peth. Fe allwch chi fynd trwy'r Tirlun wedi ei lunio â llaw, Dŵr, Bywyd Gwyllt, Gwarchod, ac yna'r gwahanol leoedd i'w mwynhau a'r diwylliant.<br><br>Ar ddiwedd y Pecyn Cymorth fe welwch Gyfeiriadur sy'n rhestru pethau defnyddiol, lleoedd i fynd a phethau i'w gwneud. Ac eto, rydyn ni wedi ceisio canolbwyntio ar bethau na fyddech chi efallai yn ymwybodol ohonyn nhw fel arall, felly rydyn ni wedi categoreiddio’r rhestr, gan gynnwys mannau di-gŵn, neu fannau cerdded cŵn. Ceir amgueddfeydd wrth gwrs, ac rydyn ni hefyd wedi cynnwys yr amrywiaeth o gerfluniau a osodwyd yn ddiweddar mewn gwahanol fannau o ddiddordeb. Hefyd llwybrau cerdded, gan gynnwys y Cylchoedd-a-Dolenni sydd wedi'u datblygu ac mae taflenni ar gael am bob un o'r rheini. Mae yna hefyd galendr sy’n rhestru pethau i’w gwneud ar wahanol adegau o'r flwyddyn.<br><br>Felly dyna arweiniad cyflym iawn o’r Pecyn Cymorth hwn a gobeithio bod hynny wedi rhoi ambell syniad i chi ar sut y gallwch ei ddefnyddio. |